Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pentre Bach
Canolfan Blant Integredig Cwm Golau
Heol Duffryn
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4BJ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pentrebach, sydd yn cwrdd mewn ystafell yng nghanolfan blant integredig Cwm Golau, Pentrebach, yn awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae’r lleoliad ar agor am bum niwrnod yr wythnos.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 26 plentyn ar unrhyw adeg benodol. Mae’r ymarferwyr yn darparu addysg ar gyfer plant sydd yn dair oed. Nid oes un plentyn yn y lleoliad wedi eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Mae Dechrau’n Deg yn ariannu lleiafrif o blant dwy oed.

Mae bron pob un o’r plant o gefndir gwyn Prydeinig ac mae ychydig iawn o’r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ychydig o’r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi chwech aelod o staff. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mai 2005.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Rhagfyr 2015 a gan Estyn ym mis Mai 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n gwella dysgu'r plant
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn ysgogi'r plant yn llwyddiannus i wella'u gwaith ar draws y meysydd dysgu
- addysgu brwdfrydig yn ffocysu'n gadarn ar y camau nesaf yn nysgu'r plant
- gweithdrefnau asesu yn creu targedau pwrpasol ar gyfer plant unigol
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn fwriadus
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu diwyd
- ardaloedd dysgu ac adnoddau mewnol ac allanol yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- prosesau hunanarfarnu rheolaidd yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn gwella'n gyson dros amser
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant
- yr arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- ganddo bartneriaethau pwrpasol â rhieni a gofalwyr a'r gymuned leol
- y pwyllgor rheoli'n dechrau gwella agweddau o'r systemau arweinyddiaeth
- y pwyllgor rheoli'n cefnogi athroniaeth yr arweinydd ynglŷn â hybu'r Gymraeg yn y gymuned yn bwrpasol

## Argymhellion

A1 Creu gwell cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardal fewnol a'r ardal allanol

A2 Sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn drylwyr a threfnus

A3 Creu cyswllt cyson rhwng y prosesau hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol a difyr ar gyfer y plant sy’n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio profiadau dysgu’n fwriadus er mwyn gwella medrau’r plant yn gynyddol ar draws ardaloedd dysgu. O ganlyniad, maent yn bodloni anghenion bron pob un o’r plant yn llwyddiannus ac yn targedu eu diddordebau’n synhwyrol.

Mae’r ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol yn ddyddiol ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i greu gwelliannau ar eu cyfer. Mae’r lleoliad yn defnyddio system o weithwyr allweddol er mwyn rhannu gwybodaeth am blant yn effeithlon. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant leisio eu syniadau personol i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach. Mae hyn yn amlwg wrth i blant ddewis tasgau yn gwbl annibynnol, fel peintio llun o’u dewis personol a chwarae rôl y perchennog wrth y til yn y caffi. Mae profiadau o’r math hwn yn ychwanegu’n gadarnhaol at frwdfrydedd dyddiol y plant, wrth iddynt ddysgu trwy chwarae a chanolbwyntio’n effeithiol ar heriau ysgogol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant. Mae gweithgareddau buddiol i hybu llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob ardal ddysgu. Er enghraifft, mae’r plant yn ceisio ysgrifennu llythrennau mewn bocs o gliter ac yn dechrau adnabod eu henwau ac enwau plant eraill heb lawer o anogaeth gan oedolyn.

Mae’r ddarpariaeth gadarn yn creu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddeall bod medrau rhifedd yn rhan o fywyd bob dydd. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn holi’r plant yn synhwyrol am gynhwysedd jygiau o wahanol feintiau ac os oes llai neu fwy o ddŵr a swigod ganddynt. Yn ogystal, maent yn annog y plant i arbrofi’n llwyddiannus gyda gwahanol wrthrychau i dreialu pa rhai sy’n arnofio neu suddo. Felly, mae’r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu i wella’r medrau yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn cynnig dilyniant a pharhad synhwyrol yn nysgu’r plant.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn fuddiol i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn fodelau cadarn o’r iaith. Maent yn annog y plant i ddefnyddio’r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau dyddiol yn llwyddiannus. Maent yn herio a holi’r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored gyda Chymraeg

graenus. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant o'r iaith yn datblygu'n effeithiol, a'u defnydd o'r iaith yn gwella mewn amser byr.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio â llysiau i greu cawl a phobi cacennau traddodiadol. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n frwd ar ganu hwiangerddi Cymreig yn rheolaidd a chynnig profiadau diddorol i'r plant ddarllen storïau traddodiadol mewn grwpiau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel bwrdd gwyn rhyngweithiol, byrddau ysgrifennu goleuedig a llechi electronig. Mae'r ymarferwr yn herio'r plant yn llwyddiannus, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a'u rheolaeth o gyfarpar technolegol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn yr ardal allanol. Maent yn herio'r plant i yrru'r beiciau'n frwdfrydig i gyflymu'r galon a dawnsio gyda'r plant i gerddoriaeth fywiog. Mae'r ymarferwyr yn ysbrydoli'r plant i ymateb yn greadigol i heriau penodol. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd difyr i beintio'u dwylo i greu printiau lliwgar ar isl ac arbrofi â thoes trwy ei fowldio, ei dorri a'i ymestyn i greu siapiau gwahanol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i bostio llythyron yn y swyddfa bost, taith i'r archfarchnad a gwibdaith i'r fferm. Mae ymwelwyr fel glanweithydd deintyddol a swyddogion o'r gwasanaethau brys yn addysgu'r plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm diddorol ar eu cyfer. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio'r plant yn gyson ym mhob tasg ffocws.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddeallus ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i'r eithaf. Mae cydbwysedd effeithiol ganddynt yn eu ffyrdd o addysgu, rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a'r tasgau sydd dan ofal oedolyn. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae ac i gael profiadau ymarferol fel coginio teisennau yn y gegin fwd a rhedeg dŵr drwy bibellau a chafnau yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae addysgu'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau'r plant trwy ddefnyddio cyfleoedd eang i arbrofi ac ymchwilio. Fodd bynnag, nid yw ymarfarwyr yn sicrhau digon o gyfleoedd rheolaidd i blant symud yn rhydd rhwng tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i brofi'r holl feysydd dysgu yn gwbl annibynnol ac i ddewis cydweithio ag eraill ar heriau gwahanol.

Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a'u parodrwydd i fynegi barn bersonol. Gwneir hyn wrth gymharu teganau plentyn o wledydd tlotaf Affrica ac wrth drafod prif nodweddion cymeriad mewn stori fel pengwin sy'n gobeithio hedfan. Trwy wneud hyn, mae'r ymarferwyr yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith y Gymraeg yn llwyddiannus. Maent yn dyfalbarhau i sicrhau meistrolaeth gynnar o'r iaith, lle mae'r plant yn ymateb i orchmynion a chyfrannu at ganeuon a gweddïau'n frwdfrydig.

Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau yn rheolaidd ac yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain ar lafar yn ystod gweithgareddau. Mae'r cyfrifoldeb i gofnodi datblygiad plentyn dan ofal ymarferwyr penodol. Yn ogystal, maent yn rhannu a thrafod cyflawniadau'r plant yn effeithiol gyda'i gilydd yn ystod sesiynau gwerthuso. Mae'r trefniadau cyson hyn yn arwain at gynllunio tasgau uniongyrchol sy'n bodloni anghenion y plant yn y dyfodol. O ganlyniad, mae hyn yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol ac mae'r targedau a osodir ar gyfer unigolion yn fwriadus. Felly, mae'r holl dystiolaeth yn cyfatebu'n dda i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant yn ystod yr amseroedd trosglwyddo ar ddiwedd sesiynau. Mae adroddiad, llyfryn cynhwysfawr o luniau a gwaith gwreiddiol plentyn gydag anodiadau perthnasol ar gael i rieni ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amserau torfol i'r plant fyfyrio yn synhwyrol ac i ystyried teimladau ei gilydd. Drwy hyn, maent yn meithrin gwerthoedd fel dweud y gwir, gweithredu tegwch a dangos parch yn llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn a'u pwysigrwydd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae'r gweithdrefnau hyn yn creu llonyddwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolyn a'i gilydd, golchi eu dwylo cyn bwyta a thacluso adnoddau. Mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Mae helpwr y dydd yn cael cyfle i gynorthwyo'n bwrpasol wrth ddosbarthu'r byrbrydau a'r diodydd, i ailgylchu nwyddau ac i gasglu a thacluso'r llestri.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad corfforol a'u lles. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'r byrbryd yn amrywio'n ddyddiol. O ganlyniad, mae'r plant yn trafod yn ystyrlon bod ffrwythau a llysiau, dawnsio ac ymarfer corff yn cyfrannu'n dda at wella iechyd a ffitrwydd unigolyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu bwyd, papur, cerdyn a nwyddau plastig mewn bocsys yn yr ardal ailgylchu. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd, teithio ar y bws yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, a phan gânt eu casglu. Mae'r defnydd o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad afreolus ymysg y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn ddiwyd pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi’n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen.

Mae’r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn bwrpasol pan fo angen. Mae’r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau arbenigol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag sy’n bosibl. O ganlyniad, maent yn gyfarwydd â’r gweithdrefnau angenrheidiol i gefnogi plant ag anghenion dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a’u cymhelliant brwdfrydig. Mae’r ymarferwyr yn herio a chefnogi’r plant yn ddyddiol gyda thynerwch. Maent yn pwysleisio’n ddyddiol fod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan o’u datblygiad personol.

Mae’r ymarferwyr yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r lleoliad yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd yn flynyddol, darllen storïau moesol o Affrica, a blasu bwydydd o wledydd gwahanol.

Mae’r ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy’n cydnabod unigolrwydd y plant yn bwrpasol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio adnoddau’n effeithiol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio’n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus i gyfoethogi’r dysgu a thasgau ffocws. Mae’r adnoddau’n hygyrch i bawb, ac yn hyrwyddo synnwyr y plant i gymryd cyfrifoldeb yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau’r plant yn effeithiol.

Mae’r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae’n ddiogel tu fewn i’r adeilad. Mae’r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i dyfu a phlannu, ymholi ac ymchwilio a rhedeg o gwmpas. Maent yn cael eu defnyddio’n effeithiol. Mae’r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn synhwyrol, fel adnoddau’r pentref a chanolfannau diwylliannol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r arweinydd profiadol yn arwain y lleoliad yn gydwybodol. Mae hi’n llywio cyfeiriad clir i waith dyddiol y lleoliad gyda ffocws clir ar wella cyflawniadau’r plant trwy addysgu effeithiol. Mae hi’n sicrhau bod yr ymarferwyr yn glynu at arferion cadarn ym mhob sesiwn. Maent yn dilyn amserlen strwythuredig, sy’n creu cysondeb ar gyfer bywydau’r plant yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod y gofal, y cynllunio, yr addysgu a’r dysgu yn effeithiol.

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n bwrpasol ar sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae’r arweinydd a’i chydweithwyr ymroddgar yn gyson wrth ddelio â phlant ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob un plentyn. Maent yn llwyddo i gymell y plant tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a

chefnogol. Mae'r arferion hyn yn bodloni anghenion plant ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae agweddau o'r gweithdrefnau rheolaethol, fel rheoli perfformiad a diweddaru manylion ymarferwyr, yn anghyson ar hyn o bryd. Nid oes trefniadau cyson yn bodoli yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod yr arweinydd yn monitro elfennau o'r gofynion disgwyliedig yn drylwyr.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn bwrpasol a chreu gwelliannau buddiol i'r ardal allanol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn cymell y plant i ddefnyddio'r tŷ bach twt fel gweithdy adeiladwr. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd llwyddiannus, darparu adnoddau TGCh safonol, a chynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau Cymraeg y plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn newydd i'w rolau. Maent yn cydweithio â'r arweinydd i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Er mai pwyllgor bach sy'n bodoli, maent wedi dechrau monitro arferion y lleoliad yn addas i sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Fodd bynnag, nid yw'r arferion ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r systemau arweinyddiaeth yn rheolaidd yn ddigon sefydlog. Mae'r pwyllgor rheoli wedi dechrau pwysleisio bod canllawiau pendant yn cael eu dilyn gan yr arweinydd ynglŷn ag agweddau penodol, rheolaethol. O ganlyniad, maent yn dechrau diffinio cyfrifoldebau'r ymarferwyr yn well. Fodd bynnag, nid ydynt yn sichrhau digon o gyfleoedd gwerthfawr i'r staff ddatblygu'n broffesiynol trwy werthusiadau blynyddol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r arweinydd, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau pwrpasol i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth gyffredinol. Mae'r prosesau hunanarfarnu yn ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr ac asiantaethau allanol yn effeithiol. Adlewyrchir hyn yn y modd mae'r lleoliad wedi ymestyn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am weithgareddau'r lleoliad.

Trwy gydweithio synhwyrol, mae'r wybodaeth a gasglwyd gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ynglŷn â gwella cyflawniadau'r plant, yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr arferion gwella ansawdd. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniad â thargedau'r cynllun datblygu yn anghyson.

Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor er lles y plant. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i wella'r arferion asesu a chynllunio i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y plant. Mae cydweithio pwrpasol yn bodoli rhwng y lleoliad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r berthynas lwyddiannus hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau'r ardal leol fel y swyddfa bost a'r archfarchnad, sy'n meithrin ymwybyddiaeth a gofal ymysg y plant o'u milltir sgwâr. Mae gan y lleoliad gyswllt cadarnhaol â'r ysgol leol wrth drosglwyddo gwybodaeth am blant a threfnu cyfarfodydd ac ymweliadau buddiol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy'n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent yn annog rhieni a gofalwyr i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae'r lleoliad yn gwrando ar eu syniadau ac yn gweithredu newidiadau, er enghraifft cynnal trafodaethau tymhorol er mwyn gosod targedau ar y cyd i wella cyflawniadau eu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy staffio'n ddoeth a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys.

Mae'r systemau arweinyddiaeth yn ffocysu'n glir ar wella cyflawniadau'r plant. O ganlyniad, maent yn arwain at ofal tyner, profiadau dysgu diddorol ac addysgu ysgogol. Yn ogystal, mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol trwy system gweithiwr allweddol y lleoliad. Mae'r lleoliad, felly, yn gymuned ddysgu gref. Mae'r diwylliant o gydweithio'n effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn effeithlon ac mae'n cyfrannu'n dda at welliannau parhaus.

Mae'r arweinydd yn rheoli adnoddau'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn newid yr ardaloedd dysgu'n synhwyrol i gyfatebu â'r themâu gwahanol i ysgogi'r plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio iâ yn effeithiol i adlewyrchu amgylchedd byw pengwin. Yn ogystal, maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. Er enghraifft, maent newydd wella'r ddarpariaeth o ran adnoddau TGCh trwy fuddsoddi mewn byrddau ysgrifennu goleuedig i dargedu llythrennedd y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh cynnar y plant.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar y safonau a lles y plant ynghyd â'r ddarpariaeth.  Yn gyffredinol, mae hi'n buddsoddi unrhyw elw'n bwrpasol er mwyn gwella'r adnoddau, fel bwrdd gwyn rhyngweithiol, cegin fwd ac ardal adeiladu yn y tŷ bach twt.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth lwyddiannus ac effaith gadarnhaol yr arweinyddiaeth ar brofiadau a dysgu'r plant.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |